



Uwch Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd – Mind Cymru

Swydd Ddisgrifiad

Graddfa	D (£34,771)
Math o gytundeb	Cyfnod mamolaeth - naw mis o fis Mai 2022
Cyfarwyddiaeth	Cysylltiadau Allanol / Mind Cymru
Tîm	Polisi ac Ymgyrchoedd
Yn adrodd i	Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Mind Cymru
Yn gyfrifol am	Amh.
Lleoliad	Hyblyg – yn debyg o fod yn gymysgedd hybrid o weithio gartref ac amser yn swyddfa Caerdydd.
Oriau	35 awr yr wythnos

Ynghylch y swydd

Ar y cyd â phobl gyda phroblemau iechyd meddwl, mae'r tîm Polisi ac Ymgyrchoedd yn eiriol dros welliannau mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau fod pobl yn derbyn cefnogaeth a pharch. Mae hynny'n cynnwys materion cyhoeddus, dylanwadu ar bolisi, ymgychu'n wynebu'r cyhoedd a pharatoi ymgyrchwyr.

Uwch Swyddog Polisi ac Ymgyrchoedd Mind Cymru sy'n gyfrifol am weithredu polisiâu ac ymgyrchoedd Mind yng Nghymru gyda'r nod o wella eu bywydau a phrofiadau pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

Byddwch yn datblygu, darparu a gwerthuso elfennau allweddol o waith polisi ac ymgyrchu Mind gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd Mind Cymru. Er mwyn gwneud hyn, byddwch yn goruchwyllo ac yn ymgymryd ag ymchwil i bolisi gan gynnwys ymgynghori gyda phobl gyda phrofiad o broblemau iechyd meddwl er mwyn dylanwadau ar gyfeiriad ein gwaith. Fel rhan o dîm, byddwch yn troi'r canfyddiadau hyn yn declynnau ar gyfer ymgyrchu a dylanwadu a fydd yn arwain at newid i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

Mae'n rhaid i chi fod yn rhagweithiol yn eich agwedd ac yn gallu aros ar y blaen gyda datblygiadau ar draws amrywiaeth o feysydd polisi. Rhaid i chi hefyd allu datblygu a chynnal perthynasau gyda rhanddeiliaid allweddol o fewn Mind ac yn allanol. Ac mae'n



rhaid i chi allu nodi a chymryd mantais o gyfleoedd i ddylanwadu yng Nghymru – trwy'r Senedd, y broses seneddol, trwy ddeddfwriaeth neu ymarfer darparu gwasanaeth. Yn olaf, byddwch yn canfod cyfleoedd i draws-werthu cynnwys ar draws tîm codi arian Mind a'n rhwydwaith o ganghennau Mind Lleol, ymgyrchwyr ac aelodau.

Byddwch yn cael eich cefnogi gan aelodau eraill o'r tîm Polisi ac Ymgyrchoedd, gyda chyfeiriad strategol a mewnbwn oddi wrth y Pennaeth Polisi a Dylanwadu Mind Cymru mewn cyfarfodydd un i un rheolaidd.

Cyfrifoldebau Allweddol

1. Datblygu, darparu a gwerthuso strategaethau dros feysydd penodol o waith ymgyrchoedd a pholisi.
2. Sefydlu a chynnal perthynasau effeithol gyda gweision sifil, gwneuthurwyr polisi, gwleidyddion a phobl eraill sy'n cymryd penderfyniadau, rhanddeiliaid a chyrrff ymgyrchu sy'n berthnasol i waith Mind.
3. Cadw'n ar y blaen gyda'r hinsawdd wleidyddol a pholisi cyhoeddus presennol gan sicrhau fod datblygiadau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu nodi, a gweithio gyda Phennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd Mind Cymru i sicrhau fod cyfleoedd i hyrwyddo amcanion polisi ac ymgyrchoedd Mind yn cael eu dilyn.
4. Sicrhau fod gan y tîm polisi ac ymgyrchoedd a'r timoedd Cysylltiadau Allanol Mind Cymru wybodaeth a dadansoddiad gynhwysfawr a diweddar o bolisi cyhoeddus ac o faterion ymarfer perthnasol yng Nghymru.
5. Cadw ar y blaen gyda thechnegau a thactegau ymgyrchu
6. Cynnal ymchwil, ymgynghori a dadansoddi (gan gynnwys dadansoddi data), datblygu argymhellion polisi ac ymateb i ymholiadau ac ymgynghoriadau'r Llywodraeth neu rhanddeiliaid.
7. Cynhyrchu argymhellion, briffiadau, cyhoeddiadau a deunydd arall ysgrifenedig o ansawdd rhagorol sy'n cyfleu negeseuon cymhleth yn glir ac yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys gwleidyddion, ymgyrchwyr, canghennau Mind Lleol, pobl broffesiynol a rhanddeiliaid eraill.



8. Cysylltu â phobl gyda phroblemau iechyd meddwl ym mhob agwedd o'r gwaith, gan gynnwys mewnbwn i ddatblygu a chynllunio polisi, cymryd rhan mewn ymchwil a chadw cysylltiad â gweithrediadau a digwyddiadau ymgyrchoedd.
9. Dylanwadu'n rhagweithiol ar y rhai sy'n cymryd penderfyniadau, gan gynnwys gwleidyddion trwy brosesau'r Senedd, ac ymateb ar ran Mind mewn ymchwiliadau, ymgynghoriadau a mentrau eraill y Llywodraeth.
10. Gweithio mewn ffordd gydlynedig, hyblyg a thraws-sefydliadol ar draws Mind, yn fod yn fodel rôl i gydweithwyr.
11. Adolygu'ch perfformiad eich hunan yn rheolaidd yn erbyn targedau, paratoi adroddiadau gweithgaredd rheolaidd i'r timoedd rheoli a llywodraethiant, a chyfrannu at gyfathrebiadau mewnol a lleol Mind ynghylch gwaith y tîm yn rheolaidd.
12. Cynrychioli Mind yn allanol a gweithredu fel llefarydd i'r cyfryngau
13. Ysgwyddo dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn o bryd i'w gilydd, sy'n cyd-fynd â natur a graddfa'r swydd.

Disgwyliadau

Rydyn ni wedi ymrwymo i wrthwynebu hiliaeth yn gyfan gwbl ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn yn flaenoriaeth bennaf i Mind. Rydyn ni'n cofleidio amrywiaeth ac yn deall bod yn sefydliad cynhwysol, sy'n cydnabod agweddau gwahanol, yn ein gallugoi i ddarparu gwasanaethau rhagorol. Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal yn y gwaith ac yn hyrwyddo cydraddoldeb mewn iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

Disgwyliadau'r swydd:

Disgwylir i bob aelod o staff Mind arddel ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n cymwyseddau. Mae hynny'n golygu y disgwylir i bob un:

- Ddangos angerdd dros yr hyn y mae Mind yn ei wneud a'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.
- Cydweithio ar draws timau, adrannau, lleoliadau a sefydliadau
- Sefyll dros yr hyn y maen nhw'n ei gredu sydd orau ac ymddiried ynddyn nhw eu hunain ac yn ei gilydd.



- Bod yn agored, gydag eraill a chyda ni'n hunain, a dangos ymrwymiad i ddysgu
- Bod yn agored i newid ac ymateb yn hyblyg ac yn gyflym mewn byd cyfnewidiol.
- Dangos ymwybyddiaeth sefydliadol a gweld y darlun ehangach wrth weithio tuag at amcanion
- Cyfathrebu'n effeithiol, sicrhau fod eu negeseuon yn cael eu deall a'u bod nhw'n ymdrechu i ddeall eraill.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth a thrin eraill gyda pharch, dangos sensitifrwydd tuag at wahaniaethau, hyrwyddo ac annog amrywiaeth ac adeiladu ar sgiliau a thalentau gwahanol bobl i wella ansawdd eu gwaith eu hunain yn ogystal â gwaith pobl eraill.
- Derbyn cyfrifoldeb am eu penderfyniadau
- Mynychu a chyfrannu at hyfforddi staff Mind ac unrhyw hyfforddiant arall a nodir sy'n addas ar gyfer y swydd.
- Teithio'n achlysurol i gyfarfodydd yng Nghymru a Lloegr a / neu weithio oriau anghymdeithasol a allai olygu aros dros nos a gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Sicrhau fod holl gyfrifoldebau a gwaith y swydd yn gyson gyda thelerau ac ysbryd cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd polisïau a gweithdrefnau Mind.
- Cadw at ofynion cyfreithiol a statudol perthnasol gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data, Deddf Diogelwch yn y Gwaith a chyfraith elusennau.
- Bod yn barod i weithio'n hyblyg (e.e. desgiau poeth, gweithio gartref) yn ôl anghenion busnes.
- Cynnal lefel briodol o gyfrinachedd bob amser
- Cyfrannu at wneud gweithle Mind yn wyrddach.

Manyleb Person

Meini prawf hanfodol

1. Profiad sylweddol mewn polisi, ymgyrchoedd neu faterion cyhoeddus.
2. Sgiliau cyfathrebu cyffredinol rhagorol, yn enwedig y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gryno i amrywiaeth o oedrannau a chynulleidfaoedd.
3. Profiad amlwg o ddatblygu, darparu a gwerthuso strategaethau sy'n cyflawni newid.
4. Dealltwriaeth a phrofiad o ddefnyddio gwahanol dechnegau dylanwadu ac ymgyrchu a sut i'w defnyddio i gael yr effaith orau.

5. Profiad o ddatblygu a chynnal perthynasau gwaith effeithiol yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys trafod gyda sefydliadau neu unigolion gyda safbwyntiau ac agenda gwahanol.
6. Gwybodaeth dda o strwythurau Llywodraeth Cymru, prosesau'r Senedd a phrofiad o ddylanwadu arnyn nhw.
7. Dealltwriaeth o gyd-destun gwleidyddol, polisi ac ymgyrchu Cymru ac fel mae'n berthnasol i iechyd meddwl.
8. Dealltwriaeth o werth cynnwys pobl gyda phrofiad o broblemau iechyd meddwl ym mhob cyfnod o'r broses polisi ac ymgyrchu.
9. Yn gallu dylunio, gweithredu a dadansoddi ymchwil a deall a dadansoddi gwybodaeth gymhleth, gan gynnwys data perfformiad, adroddiadau ymchwil a deddfwriaeth genedlaethol.
10. Yn gallu cymryd penderfyniadau yn seiliedig ar farn dda ac â'r hyblygrwydd i newid cyfeiriad yn ôl y gofyn.
11. Yn gallu i flaenoriaethu tasgau ac i reoli prosiectau, gan gynnwys cynllunio, gweithredu, goruchwylio a gwerthuso sawl prosiect i gyfarfod â therfynau amser a thargedau a gytunwyd.
12. Dealltwriaeth o'r hyn mae cyfleoedd cyfartal yn ei olygu ac yn gallu cynnwys ymarferion cydraddoldeb ym mhob agwedd o'r gwaith.
13. Dealltwriaeth ac ymrwymiad i nodau ac amcanion Mind.

Meini prawf dymunol

1. Profiad o reoli staff a gwirfoddolwyr
2. Profiad o fod yn llefarydd i'r cyfryngau e.e. cael eich cyfweld gan y cyfryngau.
3. Profiad o weithio ar ddeddfwriaeth y DU / Cymru.
4. Gwybodaeth o faterion polisi cyhoeddus presennol mewn perthynas ag iechyd meddwl.
5. Profiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o broblemau iechyd meddwl
6. Gallu siarad a / neu ysgrifennu Cymraeg,

~~Phi~~mind